Gweithio mewn partneriaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Goodson Thomas

12/2025

Briff yr Ymgeisydd

Dyddiad Cau 20/01/2026

Aelodau o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

Goodson Thomas10

Cynnwys

3. Cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Weinidog
4. Neges gan Gadeirydd Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru
5. Cefndir
6. Rôl a Chyfrifoldebau'r Awdurdod
7. Apwyntio Aelodau o'r Bwrdd
9. Manyleb Person
10. Taith yr Ymgeisydd
12. Ffeithiau Allweddol a Sut i Ymgeisio

Cyflwyniad gan Huw Irranca-Davies AS,

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Ar draws Cymru, mae canrifoedd o fwyngloddio wedi mowldio ein tirwedd a gadael ei ôl arni. Dyma hanes sydd wedi llunio a chyffwrdd â bywydau pobl gydol yr ugeinfed ganrif, wrth i'n cymunedau glofaol yng Nghymru danio'r chwyldro diwydiannol. Heddiw, mae'r un cymunedau hynny yn wynebu gwaddol anodd o domenni nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio mwyach, rhai glo a rhai nad ydynt yn rhai glo.

Mae hwn yn gyfle unigryw i chwarae rôl arwain allweddol wrth sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod), Corff Hyd Braich newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2027. Bydd ganddo swyddogaethau i ddarparu cyfundrefn reoli ragweithiol ar gyfer tomenni mwyngloddio nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, er mwyn diogelu lles pobl, diogelu cymunedau a diogelu seilwaith hanfodol Cymru.

Bydd yr Awdurdod yn mynd ati'n rhagweithiol ac mewn ffordd gyson i asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Rhan ganolog o'r drefn yw dyletswydd y corff newydd i ddatblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir sy'n peri bygythiad i les pobl neu a allai wneud hynny.

I filoedd o bobl, mae'r tomenni hyn yn eu hatgoffa'n barhaus o'r effeithiau trasig posib pe bai pethau'n mynd o'i le. Fel cenedl, fyddwn ni fyth - ac ni ddylem fyth - anghofio trychineb Aberfan. Ac fel y gwyddom, mae'r risgiau'n cynyddu wrth inni deimlo effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Mae storm Bert yn 2024 yn rhybudd amlwg arall eto o'r difrod y gall glaw trwm ei achosi, a pha mor fregus y gall tomen nas defnyddir fod mewn tywydd eithafol. Gwelais yr effaith frawychus yng Nghwmtyleri fy hun ac wrth i'r hinsawdd newid, gallwn ddisgwyl mwy o stormydd a gaeafau gwlypach. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni fod yn barod i addasu ac ymateb.

Mae rôl y Bwrdd yn un proffil uchel a dylanwadol wrth gyflawni prif amcan yr Awdurdod, sef sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd a gwneud yn siŵr bod ein cymunedau'n fwy diogel, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddarparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol cryf, gan sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.

Ein nod yw sefydlu Bwrdd sy'n cynnwys unigolion ag arbenigedd amrywiol a pherthnasol, gan alluogi mewnwelediadau meddylgar, cymesur ar faterion allweddol. Rydym yn chwilio am gyfranwyr blaengar, uchelgeisiol sy'n dod â syniadau ffres, gweledigaeth strategol, ac ysgogiad cryf i gyflawni canlyniadau ystyrlon, o ansawdd uchel.

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu cynnig persbectifau gwahanol, meddwl strategol, ac ymrwymiad i sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel, gydag awydd cryf i gael effaith gadarnhaol. Rydym wedi ymrwymo i amrywiaeth a chynhwysiant ac yn annog unigolion o bob cefndir i ymgeisio.

Huw Irranca-Davies,
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Neges gan Fiona Jones

Cadeirydd Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

Ydych chi'n rhannu fy mrwdfrydedd dros wella bywydau cymunedau, sicrhau bod pobl wrth wraidd ein penderfyniadau – ac a oes gennych chi'r ysgogiad personol i wneud gwahaniaeth?

Mae'r rhain yn gyfleoedd arweinyddiaeth prin a chyffrous. Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru yw'r sefydliad cyntaf o'i fath, ac rydyn ni'n chwilio am bobl dalentog i'n helpu i'w adeiladu a'i siapio o'r gwaelod i fyny, wrth inni weithredu Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025.

Fel Cyfarwyddwr Anweithredol, byddwch yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu goruchwyliaeth annibynnol, her adeiladol, ac arweiniad strategol i sicrhau ein bod yn gweithredu gydag uniondeb, tryloywder ac atebolrwydd, wrth annog cydweithredu. Byddwch yn darparu sicrwydd o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd gweithredol yr Awdurdod, i sicrhau ein bod yn cyflawni amcanion allweddol sy'n uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy.

Rydyn ni'n chwilio am unigolion â safbwyntiau a phrofiadau amrywiol, sydd â syniad clir o'r cyfleoedd a'r gwahaniaeth y gallan nhw ei wneud – unigolion sydd wedi ymrwymo i greu sefydliad gwydn y gellir ymfalchïo ynddo.

Drwy ymuno â ni yn ystod y cyfnod ffurfiannol hwn, cewch gyfle i gael effaith barhaol. Bydd eich arbenigedd a'ch creadigrwydd yn ein helpu i sefydlu sylfeini cadarn wrth feithrin diwylliant o arloesi a gwelliant parhaus, wrth inni ymgorffori gwerthoedd a fydd yn llywio ein gwaith am flynyddoedd i ddod.

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'n Bwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae'r Pecyn Ymgeiswyr hwn yn amlinellu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r rhinweddau rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw. Edrychaf ymlaen at glywed gan ymgeiswyr sy'n rhannu ein huchelgais i wneud pethau'n wahanol ac yn well yn y daith arloesol sydd o'n blaenau.

Fiona Jones
Cadeirydd Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

Cefndir

Mae dros 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, ac mae 360 ohonynt wedi'u rhannu'n domenni categori C a D, y rhai sydd â lefel uwch o fygythiad posibl. O'r rhain mae dros 90% yng Nghymoedd y De, sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd sy'n profi lefelau uchel o amddifadedd.

Mae ein hetifeddiaeth ddiwydiannol yn ymestyn y tu hwnt i domenni glo. Amcangyfrifir y gallai fod dros 20,000 o domenni nad ydynt yn rhai glo yng Nghymru. Mae tomenni nas defnyddir yn rhan bwysig a gweladwy o hanes balch Cymru o fwyngloddio.

Priodolir y tirlithriadau mwy diweddar yn Nhylorstown ym mis Chwefror 2020 a Chwmtyleri ym mis Tachwedd 2024 i amlder a dwyster y glawiad cynyddol sy'n effeithio ar y systemau draenio peirianyddol, nad oedd rhai ohonynt wedi'u cynllunio i ymdopi â'r lefelau presennol na'r lefelau a ragwelir o lawiad. Maent hefyd yn dangos pwysigrwydd cael cyfundrefn gadarn ar gyfer arolygu a monitro sefydlogrwydd tomenni.

Sefydlwyd y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo ('y Tasglu') gan y Prif Weinidog yn syth ar ôl tirlithriad Tylorstown. Mae'r Tasglu wedi ymgymryd â rhaglen waith eang sy'n cynnwys meithrin gwell dealltwriaeth o faint yr her, cynnal arolygiadau a gwneud gwaith cynnal a chadw ar domenni, a chyflwyno treialon technoleg i asesu rôl technoleg wrth ddarparu gwybodaeth am symudiadau tir a systemau dŵr.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo fel yr oedd) i gynnal arolygiadau cyfnodol o'r holl domenni sydd â gradd dros dro o gategori C neu D (y rhai sydd â risg uwch) ac i gasglu data mwy cyffredinol am domenni glo nas defnyddir. Estynnwyd yr arolygiadau i gynnwys tomenni categori B yn 2023 a bydd tomenni categori A yn cael eu harolygu yn 2025-2027.

Mae arolygu tomenni yn helpu i ddangos pa waith cynnal a chadw ac adfer sydd angen ei wneud arnynt, ac mae'r arolygiadau'n fodd hefyd i weld a yw systemau draenio wedi'u blocio ac a ydynt yn gweithio'n effeithiol. Ers diwedd 2020, mae cynllun grant Llywodraeth Cymru wedi bod ar gael i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) allu gwneud y gwaith hwn ac arolygu tomenni i nodi pa waith cynnal a chadw sydd ei angen, gan gynnwys gwaith adfer ar domenni sydd wedi llithro.

Er mwyn cefnogi'r rhaglen diogelwch tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo dros £100miliwn yn nhymor y Senedd hon, gan gynnwys y dyraniad o £25 miliwn gan Lywodraeth y DU yn ei Datganiad Hydref 2024. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad o £118 miliwn mewn diogelwch tomenni glo dros y 3 blynedd nesaf yn yr Adolygiad Gwariant, sy'n golygu bod ein buddsoddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn diogelwch tomenni glo bellach dros £220 miliwn hyd yma.

Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi awdurdodau lleol a CNC i wneud gwaith cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo ac mae ein rhaglen bellach wedi arolygu dros 3,000 o domenni glo ledled Cymru hyd yn hyn. Mae cyllid pellach wedi'i ymrwymo hyd at sefydlu'r corff, pan gaiff y gwaith ei drosglwyddo i'r Awdurdod Tomenni nas Defnyddir.



Rôl a Chyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (‘y Ddeddf’) yn darparu ar gyfer system newydd o reoleiddio tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn creu corff statudol ac ymhlith ei swyddogaethau fydd darparu cyfundrefn reoli ragweithiol ar gyfer tomenni glo ac eraill er mwyn diogelu lles pobl, diogelu cymunedau a diogelu seilwaith hanfodol Cymru. Bydd yr Awdurdod yn mynd ati mewn ffordd gyson i asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am weithredu a goruchwylio’r drefn newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir a bydd yn gweithioo fewn fframwaith o bwerau a dyletswyddau i sicrhau nad yw tomenni’n bygwth lles pobl.

Daw’r Awdurdod yn weithredol ar 1 Ebrill 2027 a bydd ganddo weithlu o tua 70 pan fydd ganddo ei adnoddau llawn.

Bydd yr Awdurdod yn Gorff Hyd Braich Llywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am y canlynol:

- **Llunio a chynnal** cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir sy'n fygythiad i les pobl.
- **Dull cenedlaethol newydd o gategoreiddio tomenni**, yn seiliedig ar asesiad llawn o bob safle sy'n pasio proses sgrinio gychwynnol. Bydd yr asesiad hwn yn edrych ar yr holl beryglon y gallai tomen eu hachosi i gymunedau, eiddo a seilwaith.
- **Trefn fonitro haenog** gyda gofynion monitro a rheoli rhagnodedig yn seiliedig ar gategori pob tomen. Bydd hynny'n sicrhau trefn gymesur, sy'n seiliedig ar beryglon, a dyletswydd i sicrhau bod trefniadau rheoli ar gyfer y tomenni â'r categorïau uchaf.
- **Dyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau** i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.
- **Pwerau gorfodi sifil**, gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau, ac i gael mynediad at domenni nas defnyddir a'u harolygu;
- **Pwerau gorfodi** ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir mewn argyfwng; a phwerau gorfodi troseddol.

Penodi Aelodau'r Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn cynnwys uchafswm o 9 aelod sy'n cynnwys y Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol (CEO), hyd at 5 Aelod o'r Bwrdd a benodir gan Weinidogion Cymru a hyd at 2 aelod staff.

Rydym yn bwriadu penodi Dirprwy Gadeirydd. Rôl y Dirprwy fydd cefnogi Cadeirydd y Bwrdd i gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth, a gweithredu ar ran y Cadeirydd pan fydd angen.

Rhaid i'ch cais nodi'n glir a ydych yn gwneud cais am Aelod o'r Bwrdd yn unig, y Dirprwy Gadeirydd yn unig neu'r ddwy. Rhaid cyflwyno tystiolaeth ychwanegol i fodloni'r meini prawf perthnasol os ydych yn gwneud cais i fod yn Ddirprwy Gadeirydd.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu at y trefniadau pontio sydd eu hangen i sefydlu'r sefydliad newydd erbyn Ebrill 2027. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith i allugoi'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau.

Bydd yr aelodau'n atebol i Gadeirydd y Bwrdd a bydd disgwyl iddynt helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chyflawni yn ystod cyfnod sefydlu'r Awdurdod a thu hwnt. Bydd yr aelodau yn cefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod cyngor awdurdodol ac amserol yn cael ei roi i Weinidogion Cymru drwy swyddogion, a byddant yn rhoi adborth i'r sectorau.

Yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru, bydd camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod Byrddau cyrff cyhoeddus yn gynrychioliadol ac yn gynhwysol, ac yn ymrwymedig i amrywiaeth a chynhwysiant.

Rôl y Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn cefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwbl weithredol erbyn 1 Ebrill 2027 a bydd yn parhau i lywio ei ddatblygiad a'i berfformiad drwy arweinyddiaeth barhaus, cyfeiriad strategol a gosod amcanion uchelgeisiol.

Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cydweithio'n agos â Chadeirydd y Bwrdd, yn darparu cefnogaeth wrth gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth, ac yn gweithredu ar ran y Cadeirydd pan fo angen. Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y swydd Dirprwy Gadeirydd, nodwch eich diddordeb yn glir yn eich cais.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Goodson Thomas

Penodi Aelodau'r Bwrdd

Dyma rai o'r cyfrifoldebau allweddol:

- Gwerthuso gwaith datblygu a chyflawni strategaeth fusnes yr Awdurdod, ei gynlluniau a'i amcanion perfformiad;
- Sefydlu trefniadau cadarn o ran llywodraethant, rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- Cynnal safonau uchel o ran arian cyhoeddus, gan gynnwys rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a gweinyddol sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- Monitro perfformiad ariannol a sicrhau bod gweithrediadau'n parhau o fewn y terfynau dirprwyedig y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru;
- Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw ddatblygiadau a allai effeithio ar gyfeiriad strategol neu gyflawni targedau;
- Ymgorffori llywodraethant cryf i gyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol a dyletswyddau statudol yr Awdurdod;
- Arwain is-grwpiau yn ôl yr angen i gefnogi cynllun gwaith a thargedau cyflawni'r Bwrdd;
- Meithrin diwylliant o gydweithio, cynhwysiant ac amrywiaeth, gyda chymorth strwythur sy'n ysgogi ac yn arwain eraill.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- Chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r Cadeirydd i bennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod, ac asesu a gwerthuso'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod, strategaeth fusnes, cynlluniau gweithredol ac amcanion perfformiad;
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cylch gorchwyl y Bwrdd ochr yn ochr â'r Cadeirydd er mwyn sicrhau y cytunir ar rôl a chylch gwaith y Bwrdd o'r cychwyn cyntaf;
- Cyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd, er mwyn hwyluso trafodaethau sy'n llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol, a gwneud penderfyniadau effeithiol;
- Rhoi cyngor arbenigol mewn cyfarfodydd pwyllgorau neu gadeirio pwyllgorau yn ogystal â phwyllgorau cynghori eraill y gallai'r Bwrdd eu sefydlu;
- Hyrwyddo safonau uchel o ran arian cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

Y sgiliau sydd eu hangen ar y Bwrdd:

Mae'n ofynnol i aelodau'r bwrdd arbenigo mewn o leiaf un o'r meysydd a restrir isod. Dylai ymgeiswyr nodi a disgrifio'n glir y meysydd y maent yn arbenigo ynddynt, gan roi manylion ategol pan fydd hynny'n briodol.

- Arbenigedd ariannol - neu gymhwyster cyfrifyddiaeth;
- Archwilio a Llywodraethiant;
- Cefndir cyfreithiol;
- Rheoli risg;
- Peirianneg tir neu beirianneg sifil; Rheolaeth amgylcheddol; arbenigedd mwyngloddio neu ddaearegol.

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol

- Deall “Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan” ac ymrwymo iddynt;
- Y gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn wrthrychol wrth ddadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn nodi'r prif faterion a gwneud penderfyniadau effeithiol;
- Gallu y gellir ei ddangos i ennill diddordeb ac ysgogi staff a rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysol, gydweithredol;
- Hanes o reoli perthynas gymhleth a heriol yn llwyddiannus, gan ddarparu cefnogaeth briodol yn ôl yr angen a rheoli perfformiad yn effeithiol;
- Y gallu i herio syniadau cyfredol, profi barn a chroesawu cael eich herio ac ail-edrych ar safbwyntiau er mwyn gwneud penderfyniadau gwell.

Meini Prawf y Dirprwy Gadeirydd

Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth i fodloni'r holl feini prawf hanfodol, rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i fod yn Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd hefyd gyflwyno tystiolaeth i fodloni'r meini prawf ychwanegol isod.

- Dangos arweinyddiaeth wrth fynd drwy gyfnod o newid neu drawsnewid.
- Arweinydd profiadol gyda hanes cryf o lywodraethu, arweiniad strategol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Byddwch yn arweinydd gweladwy a dylanwadol, sy'n gallu meithrin consensws a sbarduno penderfyniadau strategol lefel uchel.

Dymunol

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Meini Prawf ar gyfer Sifftio a'r Cyfweliad

Meini Prawf	Sifftio	Cyfweliad
Y gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn wrthrychol wrth ddadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn nodi'r prif faterion a gwneud penderfyniadau effeithiol.	✓	✓
Gallu y gellir ei ddangos i ennill diddordeb ac ysgogi staff a rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysol, gydweithredol.	✓	✓
Hanes o reoli perthnasoedd cymhleth a heriol yn llwyddiannus, gan ddarparu cefnogaeth briodol yn ôl yr angen a rheoli perfformiad yn effeithiol.	✓	✓
Y gallu i herio syniadau cyfredol, profi barn a chroesawu cael eich herio ac ailedrych ar safbwyntiau er mwyn gwneud penderfyniadau gwell.	✓	✓
Deall "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan" ac ymrwymo iddynt.	✓	✓

Meini Prawf Ychwanegol ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd	Sifftio	Cyfweliad
Rhaid i geisiadau am swydd Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd hefyd gyflwyno tystiolaeth i fodloni'r meini prawf ychwanegol isod. • Dangos arweinyddiaeth wrth fynd drwy gyfnod o newid neu drawsnewid.	✓	✓
• Arweinydd profiadol gyda hanes cryf o lywodraethu, o roi arweiniad strategol ac o ymgysylltu â rhanddeiliaid.	✓	✓
• Byddwch yn arweinydd gweladwy a dylanwadol, sy'n gallu meithrin consensws a sbarduno penderfyniadau strategol lefel uchel.	✓	✓

Taith yr Ymgeisydd

Yn Goodson Thomas, rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas rydym yn ei ddatblygu gydag ymgeiswyr ac am sicrhau bod eich profiad y gorau all fod. Wrth i chi symud drwy'r broses recriwtio, rydym am fod yn glir am y prif gerrig milltir a fyddwch yn dod ar eu traws, ein rôl wrth archwilio eich profiad ac ateb eich cwestiynau, a beth i'w ddisgwyl ar ôl i chi wneud cais am y swydd.

Cam 1: Hysbyseb yn Fyw a Chais

17 Rhagfyr 2025 – 20 Ionawr 2026

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Cam 2: Llunio rhestr fer

Bydd y panel asesu ymgynghorol yn asesu datganiadau personol a CVs ymgeiswyr i benderfynu pwy y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rolau orau a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'ch datganiad personol yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. **Sicrhewch nad yw eich CV yn fwy na 2 ochr A4 ac nad yw eich llythyr cais yn fwy na 3 ochr A4**.

Cam 3: Cyfweliad â'r Cleient

Wythnos yn dechrau 9 Mawrth 2026

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb ym Merthyr Tydfil.

Cam 4: Canlyniad

Penderfyniad Gweinidogol

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Brif Weinidog a Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Ffeithiau Allweddol am y Rôl

- **Lleoliad:** Merthyr Tydfil

- **Ymrwymiad Amser:** Rydym yn rhag-weld y bydd aelodau'r Bwrdd yn gweithio hyd at 4 diwrnod y mis am y 2 flynedd gyntaf ar ôl eu penodi, a fydd wedyn yn lleihau i 2 ddiwrnod y mis. Efallai y bydd angen cyfarfodydd neu ddigwyddiadau achlysurol ad-hoc.

- **Telerau'r Penodiad:** Penodiad cychwynnol o 3 mlynedd, oni bai ei fod yn cael ei derfynu cyn hyn trwy rybudd ysgrifenedig o dri mis. Yn yr un modd, gall y Gweinidog derfynu'r penodiad ar unrhyw adeg.

- **Tâl:**
  Aelod o'r Bwrdd - £282 y dydd ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol. (Nid oes pensiwn gyda'r swydd hon).
  Dirprwy Gadeirydd - £311 y dydd, ynghyd â chostau teithio a threuliau eraill o fewn terfynau rhesymol. (Nid oes pensiwn gyda'r swydd hon).

- **Ymddeol:** Nid oes oedran ymddeol gorfodol.

- **Y Gymraeg:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a meithrin galluoedd dwyieithog ym maes penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gwerthfawrogi dwyieithrwydd ac yn ymrwymo i hyrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn croesawu eich cais beth bynnag yw lefel eich sgiliau.

- **Pwy sy'n gymwys:** Dylid rhestru unrhyw feini prawf penodol sy'n anghymhwyso unigolyn rhag eistedd ar fwrdd y Corff yma. Gallai hyn gynnwys meini prawf anghymhwyso neu gymhwysedd penodol neu pan fo Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys.

  Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Awdurdod Tommeni Nas Defnyddir Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

  Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

Sut i wneud cais

I gefnogi'r gwaith o chwilio a phenodi ar gyfer y swydd hon, rydym wedi defnyddio **Goodson Thomas**, gwasanaeth ymgynghori Chwilio Gweithredol.

I drafod yn anffurfiol, cysylltwch â thîm Goodson Thomas ar **029 2167 4422** neu gwybodaeth@goodsonthomas.com.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y rolau, anfonwch e-bost at Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I wneud cais am y rôl hon, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chliciwch ar y swydd wag sydd o ddiddordeb i chi. Cliciwch ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith isaf. Os hoffech wneud cais am y swydd wag hon yn y Gymraeg, defnyddiwch y ddolen 'Newid Iaith' ar ochr dde uchaf y dudalen hon, i fynd â chi i fersiwn Gymraeg yr hysbyseb hon, lle gallwch wneud cais yn y Gymraeg.

Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a gallwch ddefnyddio hon i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cais hwn neu unrhyw geisiadau eraill a wnewch.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho CV a datganiad personol. **Sicrhewch nad yw eich CV yn fwy na 2 ochr A4 ac nad yw eich llythyr cais yn fwy na 3 ochr A4**

Dyddiad Cau: **20 Ionawr 2026**

Cyfweliad Panel: **Wythnos yn dechrau 9 Mawrth 2026**

Goodson Thomas

Diolch

gwybodaeth@goodsonthomas.com
029 2167 4422